


## Cyflwyniad ac arweiniad i'r Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol a ddarperir i gefnogi iechyd a lles staff ym Mhrifysgol Bangor



Penbre Rhif 52

**Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch,  
Prifysgol Bangor, Penbre, Ffordd y Coleg,  
Bangor, LL57 2DG Ffôn: 01248 383847**

Swyddogaeth Iechyd Galwedigaethol yw rhoi cyfleoedd sy'n helpu i bobl barhau mewn iechyd da yn y gwaith. Gwneir hyn mewn nifer o ffyrdd<sup>1</sup> fel:

- *Cadw golwg gyffredinol ar iechyd:* Gwirio effeithiolrwydd dulliau diogelu sydd mewn grym i sicrhau nad yw iechyd yn cael ei niweidio gan beryglon mewn labordy, swyddfa neu weithdy.
- *Hybu iechyd:* Drwy wiriadau iechyd, ymgyrchoedd iechyd a chyhoeddi gwybodaeth am iechyd i atal salwch.
- *Cefnogaeth:* I alluogi i rai sydd wedi dioddef salwch neu anaf ddychwelyd i'r gwaith.
- *Gwybodaeth:* I bobl sydd â chyflyrau iechyd cronig fel asthma, diabetes, epilepsi ayb allu parhau i weithio, ac i'r rhai hynny sydd ag anabledd sy'n gofyn am gefnogaeth ychwanegol.

Cewch fwy o fanylion am y gweithgareddau hyn o'r Wefan Iechyd a Lles [www.bangor.ac.uk/hss/wellness](http://www.bangor.ac.uk/hss/wellness) neu drwy gysylltu â'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch ar estyniad 3847.

Mae'r Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol yn gymwys i gynllunio a chyflwyno'r Agenda Iechyd i Staff a rhaid iddynt gadw at god cyfrinachedd llym wrth ymdrin â gwybodaeth feddygol bersonol.

<sup>1</sup> HSG257 (2006) 'Occupational Health Services in Higher and Further Education' [www.hse/publications](http://www.hse/publications)

- Er bod yr Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol yn cynghori Rheolwyr ar gefnogi staff yn y gwaith, nid yw gwybodaeth feddygol byth yn cael ei datgelu heb ganiatâd gwybodus, ysgrifenedig yr unigolyn.
- Cedwir cofnodion papur iechyd galwedigaethol mewn ystafelloedd / cypyrddau dan glo; cedwir data cyfrifiadurol yn ddiogel i rwystro mynediad heb awdurdod.



Os ydych chi'n dymuno cael golwg ar eich cofnodion iechyd galwedigaethol eich hun, cysylltwch â'r Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol est 2575 / [m.lake@bangor.ac.uk](mailto:m.lake@bangor.ac.uk). Am gopi o'ch cofnodion iechyd galwedigaethol, rhaid gwneud cais i'r Swyddog Gwarchod Data, est 2413 / [gwenan.hine@bangor.ac.uk](mailto:gwenan.hine@bangor.ac.uk).

Cysylltwch â'r Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol os oes gennych unrhyw gwestiynau, awgrymiadau neu bryderon ynghylch y Gwasanaeth. Os nad yw'r cyswllt yma'n foddhaol, ffoniwch bennaeth Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch ar est 3847 / [gareth.w.jones@bangor.ac.uk](mailto:gareth.w.jones@bangor.ac.uk).